# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 15 Mai 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

## 208(v3)

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**David Rees (Aberafon):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r cyhoeddiad nad yw'r Comisiwn Ewropeaidd yn debygol o gymeradwyo'r fenter ar y cyd rhwng Tata Steel Cyf a ThyssenKrupp AG, ac felly bydd unrhyw broses bellach ar y cyd-fenter yn cael ei hatal?

Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** Ymhellach i'r datganiad ysgrifenedig ddoe, a wnaiff y Gweinidog roi diweddariad am gamgymeriad CThEM parthed cyfraddau treth incwm yng Nghymru?

Gofyn i'r Dirprwy Weinidog

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed heddiw gan Rhodri Williams CF yn disgrifio'r ddeddfwriaeth fel un ddi-rym?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad: Cynnal Hyder yn y Weithdrefn Safonau

(30 munud)

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Bil cerbydau cyhoeddus di-allyriad carbon

(30 munud)

**NDM7020** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig am fil cerbydau cyhoeddus di-allyriad carbon.

2. Yn nodi mai diben y bil hwn fydd:

a) hybu'r defnydd o gerbydau trydan neu gerbydau di-allyriadau yng Nghymru er mwyn helpu i leihau allyriadau carbon; a

b) gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i lunio strategaeth i symud tuag at ddefnyddio cerbydau trydan neu gerbydau di-allyriadau yn y fflyd gyhoeddus yng Nghymru.

## 7 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Prydau Ysgol Iach

(60 munud)

NDM7002 Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu y gall prydau ysgol iach, maethlon wneud cyfraniad hanfodol i les, cyrhaeddiad ac ymddygiad cadarnhaol disgyblion.

2. Yn nodi bod adroddiad y Comisiynydd Plant, Siarter Ar Gyfer Newid: Amddiffyn Plant yng Nghymru rhag Effaith Tlodi, yn darparu tystiolaeth sy'n peri pryder nad yw nifer sylweddol o ddisgyblion yn cael yr hawl a nodir yng nghanllawiau bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) egluro ai cyfrifoldeb llywodraethwyr ysgolion, awdurdodau lleol neu Lywodraeth Cymru yw safonau prydau ysgol a pha gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau eu bod yn cael eu monitro; a

b) amlinellu pa gamau sy'n cael eu cymryd i gynyddu faint o fwyd ar gyfer ysgolion sy'n cael ei gaffael yn lleol fel rhan o'i phwyslais ar yr economi sylfaenol.

'Siarter Ar Gyfer Newid: Amddiffyn Plant yng Nghymru rhag Effaith Tlodi'

Bwyta’n iach mewn ysgolion a gynhelir: Canllawiau statudol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu'

**Cyd-gyflwynwyr**

Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)
Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Cefnogwyr**

Darren Millar (Gorllewin Clwyd)
David Rowlands (Dwyrain De Cymru)
Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)
Russell George (Sir Drefaldwyn)
Vikki Howells (Cwm Cynon)

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr

(60 munud)

**NDM7050** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod mwy na 21,000 o oedolion ifanc rhwng 14 a 25 oed yng Nghymru yn ofalwyr ifanc sy'n darparu cymorth a chefnogaeth i deuluoedd a ffrindiau.

2. Yn pryderu'n fawr fod cyrhaeddiad addysgol oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn sylweddol is na'u cyfoedion a'u bod dair gwaith yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ar fyrder ag anghenion cymorth oedolion ifanc sy'n ofalwyr, yn ogystal â'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gan gynnwys:

a) canfod gofalwyr ifanc yn gynnar er mwyn eu helpu i gael cymorth yn rhwydd a lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn ymddieithrio o addysg;

b) cyflwyno'r cerdyn adnabod gofalwyr ifanc yn genedlaethol ynghyd â dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi'r cerdyn ar waith;

c) codi ymwybyddiaeth awdurdodau lleol o'u dyletswyddau o dan Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i hybu lles gofalwyr y mae angen cymorth arnynt; a

d) helpu gofalwyr ifanc i fanteisio ar addysg ôl-16, gan gynnwys drwy gyflwyno cynllun teithio rhatach.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 -** Rebecca Evans (Gwyr)

Ym mhwynt 3b, dileu “ynghyd â dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi'r cerdyn ar waith” a rhoi yn ei le “a gweithio gydag awdurdodau lleol i roi’r cerdyn ar waith”

**Gwelliant 2 -** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

'sicrhau bod darpariaeth gofal seibiant yn gwella er mwyn i ofalwyr ifanc allu cael hoe. '

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7051** Lynne Neagle (Torfaen)

Dysgu hirach ar gyfer bywydau gwell, diogelach: yr achos dros godi oedran cyfranogi mewn addysg yng Nghymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 21 Mai 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 08/05/2019 i'w hateb ar 15/05/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**1** OAQ53843

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymateb Llywodraeth Cymru i'r gostyngiad a ragwelir mewn incwm ffermydd?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**2** OAQ53855

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o adroddiad y Cenhedloedd Unedig sy'n datgan bod un filiwn o rywogaethau mewn perygl o ddiflannu o ganlyniad uniongyrchol i weithgarwch dynol?

**Leanne Wood** *Rhondda*

**3** OAQ53860

**(e)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r bygythiad yn sgil dirywiad mewn rhywogaethau?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

**4** OAQ53864

**(e)**

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i atal a gwrthdroi colledion mewn bioamrywiaeth?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

**5** OAQ53862

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**6** OAQ53838

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r diwydiant bwyd a diod yng nghanolbarth Cymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

**7** OAQ53841

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

**8** OAQ53846

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella bioamrywiaeth?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**9** OAQ53833

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynd i'r afael â llygredd aer yng Ngorllewin De Cymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

**10** OAQ53839

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo bioamrywiaeth?

**David Rees** *Aberafan*

**11** OAQ53852

**(e)**

Pa ddadansoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effeithiolrwydd ei rhaglenni gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi ers dechrau datganoli?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

**12** OAQ53831

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau hyfywedd ffermio yng Nghymru?

# Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**1** OAQ53865

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod gan gymunedau lleol lais yn y system gynllunio?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

2 OAQ53832

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu nifer y cartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

3 OAQ53868

**(e)**

A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ail-gyflunio llywodraeth leol?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

4 OAQ53844

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a yw polisïau tai gwledig Llywodraeth Cymru yn addas i'r diben?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

5 OAQ53863

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru o'r adolygiad annibynnol o dai?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

6 OAQ53836

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Nghymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

7 OAQ53854

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi gwaith teg yng Nghymru?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

8 OAQ53850

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella cynhwysiant ariannol ym Merthyr Tudful a Rhymni?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

9 OAQ53847

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i wella cynhwysiant digidol yng Ngorllewin De Cymru?

**Leanne Wood** *Rhondda*

10 OAQ53853

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer llywodraeth leol?

**Hefin David** *Caerffili*

11 OAQ53869

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol Llywodraeth Cymru ar ddiwygio lesddeiliadaeth?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

12 OAQ53872

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y galw am dai fforddiadwy?